# GALAR-GAN,

A GYFANSODDWYD AR YR ACHLYSUR

O

# Farwolaeth

Y

# Parchedig Titus Lewis,

GYNT GWEINIDOG

*Y BEDYDDWYR YN NGHAERFYRDDIN;*

Yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn er mawr alar i Eglwys filwriaethus CRIST, *Ebrill* y 30, 1811, yn y 38 flwyddyn o'i oed; wedi bod yn Weinidog llafurus o'r Efengyl dros 17 o flynyddau.

---

GAN

*JOHN DAVIES, Gweinidog yr Efengyl,*

YR NGHAPEL SION, SWYDD FONWY.

---

Fair Zion trembles at th' alarming news,
And deeply mourns the sympathetic muse.—E. FRANCIS.

---

Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw; ffydd y rhai dilynwch gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwy.—PAUL.

---

ABERTAWE:

ARGRAPHWYD GAN J. VOSS, LLE'R FARCHNAD.

---

*Pris Dwy Geinog.*

AT Y

# DARLLENYDD.

---

*GOBEITHIO na wnaiff neb o'r brodyr ei olygu yn rhyfyg yn Awdwr yr ychydig bennillion syml* (simple) *canlynol, ei fod yn eu dwyn i'r byd trwy'r argraphwasg; a gobeithio hefyd na fydd hyn ddim yn rhwystr i eu frodyr parchedig a doniol i gyfansoddi pennillion o alarnad ar yr un achos, ac a fyddant lawer yn rhagori ar y rhai hyn, os byddant yn profi cymhelliad i wneuthur hynny. Ei barch i'r Parchedig a'r duwiol Frawd ymadawedig, e'i fawr hiraeth ar ei ol, a'i chwenychiad am gadw cof o hono yn ei feddwl ei hun, a'i cymhellodd i gyflawni hyn o orchwyl. Bydded i ddeuparth o'i Yspryd i aros arnom; ac aeddfeder ni oll i fyned i'r unrhyw ardal ac yr ehedodd ef iddi. Amen.*

# GALAR-GAN.

---

I.

GWLAD y galar ydyw'r ardal,
Y'mha un yr wyf yn byw;
Rhyw drallodion blin a chwerw,
Sy'n rho'i i mi lawer briw;
Nid oes yma mwy mi greda',
Ddim gorphwysdra i'w fwynhau;
F' enaid edrych uwch yr Haulwen,
Mae yno le i lawenhau.

II.

Hoffder f'enaid yn yr anial,
Ydyw llwyddiant achos Crist;
Teyrnas Satan mewn rhwygiadau,
A dyddimiad pechod trist;
Efengylaidd lân gymdeithias,
Fy nghyd-filwyr ar y mâ's;
Rhai sy'n dwyn eu harfeu gloywion
O dan uchel faner Grâs.

III.

Och! p'le mae'r hyfrydwch hwnnw,
Bu'm cyn hyn yn ei fwynhau?
Pa le gwelir ôl Efengyl,
Ar y pelledigion rai?

Pa le ceir cwmpeini newydd,
Yn dweud o'u bôdd "Awn gyd a chwi?"
P'le canfyddir brodyr anwyl,
Heddyw'n wresog yn y ty?*

IV.

P'le mae'r Brodyr, P'le mae'r Tadau,
Fu'n ymdrechu 'n ddiwyd iawn?
Rhai safasant heb ro'i fynu,
Yn y frwydr hyd bryd'nawn;
Rhai fu'n curo fel off'rynau,
A'r gastellau uffern ddu;
Rhai fu'n llonni trist eneidiau
'N ddiau a gwin Calfaria fry.

V.

Beth dâl i mi 'n hir i olrhain
Gofyniadau blin fel hyn;
Mae'r ystyriaeth o'u hattebion,
Yn dristwch mawr i Sion fryn;
Teulu'r Iesu wela'i heddy',
Yn lle canu'n beraidd iawn,
Yn llawn dagrau yn galaru,
A'r delyn a'r yr helyg cawn.

VI.

Ow! pa fodd y gallaf dd'wedyd,
Pa'm yn awr gwnaf alar-gân;
Yr achos sy'n archolli 'nghalon,
Ac ymron a'm suddo 'n lân;

---

* Mae'r Awdwr yn cyfeinio at yr amser marwaidd presennol a'r grefydd Crist.

Ydyw, gallaf ychwanegu,
Mae ef felly i'm mrodyr cu;
Mae rhai 'n heddy 'n gyffredinol,
Yn cyd-alaru a myfi.

VII.

Titus Lewis, Frawd parchedig,
A'n gadawodd a'r y llawr;
Hedodd ei anfarwol yspryd
I drigfannau'r nefoedd fawr;
Lle bod mwy mewn corph cystyddiol
Yn yr anial gyda ni,
Fe ddihengodd o'r cystyddiau,
Ninnau yn galaru sy.

VIII.

Diau fod ei ymadawiad,
Yn fawr elw iddo 'i hun;
Etto Sion yn yr anial
Heddyw gafodd golled blin;
Eglwysi bedyddiedig *Cymru*,
Sydd gan hynny 'n wylo'n drist,
Oblegid colli Brawd defnyddiol,
A ffyddlon Was i Iesu Grist.

IX.

Bu ei ymadroddion pwysig,
Yn fwyd i'r cryf, a llaeth i'r gwan;
A'i draethiadau tra rhagorol,
Bu rhai'n o lês yn llawer man;
A thrwy rhai'n y mae ef etto,
Yn llefaru wrthym ni;
A thra byddir yn eu darllain,
Fe gyll rhai y dagrau 'n lli.

X.

Fe gyhoeddodd dros flynyddoedd,
Y Gwir a gredodd ef trwy râs;
Wrth ei wrando yn llefaru
Fe ga'dd miloedd nefol flâs;
Adeiliadau wir dduwiolion
Yn y Sancteiddiolaf Ffydd,
Fe ddychrynai annuwiolion,
Ac fe roddai 'r caeth yn rhydd.

XI.

Safai'n hy fel Tyst ffyddlonaf;
O blaid y gwir yn ddiwahân;
Ymddiffynai athrawiaethau,
Ac ordinhadau 'r 'fengyl lân;
Cyhoeddai 'r gwir heb gywilyddio;
Yn erbyn pob gwrth'nebwr câs,
Nid oedd arno 'chwaith ddim arswyd
Neb, wrth weithio ar y mâ's.

XII.

Gellir d'wedyd yn ddi-ymffrost,
Ac heb i'n ryfygu chwaith,
Mae un uniawn-gred oedd LEWIS,
Nid rhy lym, ac nid rhy laith;
Gwrthwynebai 'r hyn a elwir
Yn *Arminiaeth* o un tu,
*Antinomiaeth* o'r tu arall,
Yn ei herbyn safai 'n hy.

XIII.

Doeth Ddifeinydd, duwiol Brydydd,
Gwych Hanesydd ydoedd E;
Un ymdrechai hyd y gallai,
Fôd o ddefnydd ymhob lle;

Ond yn gynnar fe 'i cymmerwyd
Oddiwrth ei waith i'w wobr fry;
Uchel yw ei fraint ef heddy',
'Mhlith y glân nefolaidd lu.

XIV.

Bu'n llafurio dros flynyddau
Y' *Mlaenywaun* y' *Mhenfro* draw,
A *Phorth-tywyll Ynghaerfyrddin*,
Yno mwyach byth ni ddaw:
Ni chair yno mwy o hono
Yn chwilio 'r ysgrythyran glân,
Ac yn dweud mae Crist yw ceidwad
Pechaduriaid fawr a mân.

XV.

Bu'n hyfrydwch gan ryw luoedd,
Mewn cymmanfaoedd lawer gwaith,
I glywed LEWIS yn cyhoeddi
'R Iesu a'i rinweddau maith;
Yno llonnai drist eneidiau,
Gwelid hynny yn eu gwedd;
Ond yn awr mae'r Brawd anwyla'
O ran ei gorph yngwaelod bedd.

XVI.

Yn y *Doleu* yn sir *Faesyfed*,
Cofia rhai am hyn yn hir,
Oedd y tro ola' mewn Cymmanfa,
Y bu ef yn pregethu'r gwir;*

---

* A dyna'r tro ddiweddaf y clywodd awdwr y farwnad hon ef yn pregethu.

D'wedodd yno yn rhagorol,
(Tebygaf' nawr y clywa'i lêf)
Am nattur pechod a'i aflwyddiant,
Ac am ddaioni Duw y nêf. *Job* xxxiii. 27, 28.

XVII.

Cymmanfa *Trefdraeth* ni bydd yno,
Na, ni chlywir yno 'i lêf;
'N lle bod yno yn pregethu,
Bydd yn canu yn y nêf,
Ynghyfeillach ei hên frodyr,
A ddihengodd adreu o'i flâ'n,
Heb alar, cystydd, nac un gofid,
Yn cydseinio 'r newydd gân.

XVIII.

Nid yw yno 'nawr yn achwyn,
Fod ei delyn, maes o'i lle ;*
Na, mae' i thannau oll yn dynnion,
Ac mae 'i sain yn swnio'r ne';
'R Anthem fawr am ddwyfol haeddiant,
Maith rinweddau angeu'r, grô's
Ydyw'r dôn y mae'n ei chwarau,
Yn y wlad lle nad oes nôs.

XIX.

" O ! fy mrodyr glân a dedwydd,
" Mawr yw'ch braint ynghwmpni Crist !
" Cael ei wel'd, yn debyg iddo,
" Yr y'ch chwi 'n llawen, mi sydd drist ;

---

* Gwel ei Hymn 57, yn yr ail ran o'i bigion Hymnau, yr ail argraphiad.

" Mi sydd yma yngwlad y pechu,
" A blinderau ddydd a nôs ;
" Bryd daw'r amser y caf finnau
" Ddodi 'n hollol lawr y grô's ?

XX.

" Mi debygwn nad yw'r amser
" I minnau fod o gartreu 'n hîr ;
" Henffych amser brâf dymynol,
" Pan cyrhaeddai'r Ganaan dîr !
" Tra bwyf yma yn yr anial,
" Duw yn rym i dynnu 'mlâ'n ;
" Llwyr ffyddlondeb dros ychidig,
" Yngwasanaeth f' Arglwydd glân.

XXI.

Arglwydd nag angofia 'th weision,
Etto sy'n y cystydd mawr ;
Edrych ar dy drist Eglwysi,
Rho'r Diddanydd yma i lawr ;
Gwna fod llwyddiant ar d' efengyl
Er bywhâd i'th werthfawr waith ;
Myn eneidiau wrth y miloedd,
I deithio etto'r nefol daith.

XXII.

Cysura 'n raslawn y galarus,
Bydd yn gymmorth hawdd dy gael ;
Tro eu golwg yn llwyr attat,
Dyro iddynt dy râs hael ;
Fel y byddont yn ymostwng
I dy drefn ddoeth a dâ ;
Arglwydd pawb, a Threfnwr pob peth,
Ydwyt ti 'r hwn elwir JAH.

XXIII.

Yn neillduol, Arglwydd grasol,
Cofia am Berthnasau 'n Brawd,
Y Weddw a'r Ymddifaid bychain,
Y rhai sy'n aros yn y cnawd;
Gwna'u hymddifyn, Gwna'u diddanu,
Dan drallodion o bob rhyw;
Er bod TITUS wedi marw,
Y mae'r Iesu etto 'n fyw.

XXIV.

Cofia am y Praidd a borthodd
Yn ffyddlon drosot yn ei ddydd;
Bugeilia drostynt yn wastadol,
Rho 'ddynt nerth i fyw trwy ffydd;
'R un athrawiaeth ac a glywsant
Gan dy was sy'n awr mewn hedd,
Arddel hon trwy weision eraill,
I'w henaid gwna yn felus wledd.

XXV.

Bydded holl Genhadon heddwch
Dan dywysiad d' Ysbryd Glan;
Gwna dy Sanctaidd Air o'u genau,
Fel grymmus ordd, a gwresog dân;
Cynnorthwya bawb o honynt
I fyw yn addas i eu swydd;
I'r cyfryw a arddeli felly,
Dweded pob un "Duw yn rhwydd."

TERFYN.

# HYMN.

1. Ni awn o'r bron i'r bythol fyd,
Yno lle mae ein cartre 'u gyd;
Nid y'm ond teithwyr ar y llawr,
Ac megis gweithwyr munud awr.

2. Y call a'r ffol yn ddiwahân
'Raid fyn'd ger bron y Barnwr glân;
Y naill gaiff feddu bythol hedd,
A'r llall gaiff deimlo dwyfol gledd.

3. Canlynwyr Iesu, mawr yw 'u braint,
Eu gwynfyd, pwy all ddweud ei faint;
Gelynion Iesu, trist yw 'u gwawr,
Mewn poenau sy'n anrhaethol fawr.

4. Gwynfyd y rhai sy'n derbyn grâs
Gan Dduw a'r wyneb daer lâs;
A nerth i bara hyd y bedd
I arddel Crist Tywysog hedd.

5. Ymdrechwyr cywir dros y ffydd,
Coronau yn eu haros sydd;
Gwynfyd y meirw yn Mab Duw,
Er marw, y maent etto 'n fyw.

*J. Voss, Printer, Swansea.*